YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. CHWEFROR, 1952 RHIF 2.

Nodiadau'r Golygydd.

EGWYDDORION YR UNDODIAID.

YMAE Mrs. A. Rees, Llanbedr yn gorffen ysgrif syml ond prydferth (y gobeithiaf ei chynnwys yn y rhifyn hwn) gyda'r frawddeg yma ". . . *y mae mor bwysig i ni fyw bywydau glân ac aruchel a fyddo'n esiamplau er daioni i eraill, ac i adael y byd ychydig yn well nag ei cawsom*".

Credaf iddi grynhoi holl rym un o egwyddorion mwyaf Undodiaeth i'r frawddeg fechan hon ac ar ddechrau blwyddyn a gawn ni gyd-ystyried ei phwysigrwydd. Honnir pethau rhyfedd amdanom fel mudiad weithiau, ac fe'n hadweinir fel gwŷr sy'n gwadu hyn a'r llall. Ond y mae'r beirniad teg (er efallai ei fod yn anghytuno â'n daliadau) wedi sylwi fod y mudiad wedi llwyddo i gynhyrchu math arbennig o gymeriad a hwnnw ar ei orau yn addurn ac asgwrn cefn i gymdeithas. Sylwyd droeon ar garedigrwydd gwŷr y Smotyn Du Undodaidd, Ceredigion ; sylwyd ar y nifer mawr o arloeswyr chwarae teg cymdeithasol a gynhyrchwyd gennym ; sylwyd ar ysgolion campus ein gweinidogion blaengar a sylwyd ar ein cariad at ein gilydd fel teulu'r ffydd. Pa mor aml y clywais ddweud, "y mae'r Sosiniaid yma yn dwym dros ei gilydd". Wrth lunio gwawd fe lefarwyd gwirionedd lawer tro, a chofir mai un o gyhuddiadau cynharaf y byd yn erbyn yr Eglwys Fore oedd "onid yw y rhai hyn yn caru ei gilydd".

A gawn ni yn gyntaf ynte, yn ystod y flwyddyn yma ail ymafael yn un o hanfodion Cristnogaeth ac un o egwyddorion Undodiaeth—sef bod i ni garu ein gilydd a chyd-ymddwyn â'n gilydd hyd eithaf y gallu dynol dan fendith Duw.

O dro i dro, ar hyd a lled Cymru byddaf yn cwrdd a gweinidogion o enwadau eraill a oedd yng Ngholeg Caerfyrddin yn yr un cyfnod â mi o dan brifathrawiaeth W. S. Jones. Sonnir am bob hen hwyl

a helynt a hiraeth ond yn y diwedd fe fydd y cyfeillion yma bron yn ddieithriad yn dweud, "dyna ŵr bonheddig oedd W.S." Maddeued y gŵr mwyn i mi am ddweud rhywbeth y byddai'n sicr o'm rhwystro i'w ddweud pe gallai—eithr dyna'r gwir y gallwn alw tystion drosto. Lle mae Undodiaeth wedi gafael yn sicr y mae wedi creu gwŷr bonheddig. Dowch i ni ymfalchîo yn ein tras a chreu eto yn ystod y flwyddyn hon ragor o wŷr bonheddig—gwŷr rhadlon, taer wrth egwyddor a mwyn eu dylanwad.

Ba waeth os collfernir ein ffydd o fedrwn ddryllio'r gollfarn â grym anorchfygol bywyd glân. Gadewch i ni benderfynu na welir Undodwr nac Undodwraig yn dwyn gwarth ar enw da traddodiad y tadau. Parhaed cariad rhyngom, ffynned yr elfen fonheddig, cynhydded caredigrwydd a boed pawb, pwy bynnag y bo yn deyrngar i egwyddor a chymdogaeth dda.

Y Fom Atomig.

Pan ofynnwyd i'r Dr. Openheimer (lluniwr y Fom Atomig), a oedd unrhyw amddiffyniad posibl rhag yr hyn a ddigwyddai pan ollyngid bom atom, dyma'i ateb : "Oes un amddiffyniad, a dim ond un." "Beth yw hwnnw", gofynnodd rhywun. Edrychodd y Dr. yn ddwys o gwmpas ei gynulleidfa ac meddai'n gadarn mewn un gair : "Heddwch".

(O'r *Faner*).

Plant Anian.

Gan A J Rees, Llanbedr

Yr hyn a welir yn gyffredin ar bob llaw heddiw ydyw dail crin yn disgyn yn grynedig a gwyw, a gwynt oer y Gaeaf yn eu chwythu lle y mynno, a'r coed a'r llwyni yn cael eu gadael fel ysgerbydau noethlwm. Golygfa ddigon diflas, ond hollol naturiol o dan ddyrnod y gaeaf llym.

Gwelwyd hwy yn y Gwanwyn yn ieuanc ac ir yn cuddio'r coedydd fel mantell werddlas, dew, ac yn prydferthu yr amgylchedd. Buont yn gysgod rhag gelynion i'r adar mân pan yn magu eu teuluoedd yn eu nythod ar y cangau, a buont yn gysgod i ddyn ac anifail rhag gwres yr haul crasboeth lawer tro. Erbyn hyn daeth eu tymor i ben, hwythau yn syrthio.

Diddorol yn y Gwanwyn ydyw sylwi ar y blagur yn gwthio eu pennau trwy'r ddaear yn y border bach, y mae un yn amlycach na'r lleill, blaguryn y lili ydyw. Yn union dechreua dynnu adnoddau tyfiant i'w gyfansoddiad o'r pridd, yr awyr, yr haul a'r cwmwl,

adnoddau pur i gyd, ac yn raddol, tyf a chryfha nes dyfod yn blanhigyn cryf. Yna ar ôl cyrraedd anterth ei nerth cynhyrcha flodeuyn prydferth y Lili Wen i swyno'r sawl a'i gwêl, ac a daena arogl hyfryd dros yr holl ardd. Gydag amser gwelir y blodeuyn yn araf wywo, a'r dail yn colli eu graen ac yn crino, a chyn hir, ni bydd mwy ohono. Ond bydd y blodeuyn wedi cyflawni neges ei fywyd yn y byd, ac ni ddisgwylir rhagor oddi wrtho, a bydd yn marw yn naturiol.

Mor debyg ydyw cwrs bywyd plant Anian yn y byd yma. Daw dyn i'r byd yn egwan a diymadferth, a bydd raid iddo yntau, fel y blodeuyn, dynnu adnoddau i'w gorff er mwyn tyfu a chryfhau a datblygu. Yr hyn sydd yn bwysig yn gorfforol ac yn ysbrydol iddo ydyw gofalu bod yr adnoddau yn bur ac iach i'r corff a'r meddwl, fel pan fyddo wedi cyrraedd anterth ei nerth y bydd ei gymeriad yn blodeuo fel y lili ac yn addurn i gymdeithas.

Dywedir bod dyn yn ei henaint yn dueddol i fyw yn y gorffennol. Y mae hynny'n eithaf naturiol, oherwydd, erbyn hyn, y mae ei ddydd gweithio ef drosodd, ac ni chymer ddiddordeb yn y materion arferol gan nad yw yn alluog i gymryd rhan yng ngwaith y dydd. Mae'r corff yn dadfeilio yn raddol, y glust yn trymhau, y llygad yn pylu, y war yn crymu. Yn y cyfnod yma hed y côf yn ôl i'r dyddiau pan oedd y byd yn llawn diddordeb a rhamant, a gwaith yn bleser. Ond, oni fu dyn fel y blodeuyn yn ffyddlon i'r neges a ymddiriedwyd iddo ar y ddaear, bydd y cof am y cyfnod yn fwy o ofid nag o gysur, felly, er mwyn sicrhau côf am orffennol melys a thangnefeddus, y mae'n bwysig iawn i bob dyn ymdrechu gwneud ei orau. Nid yw'n debygol bod neb ohonom wedi mynd trwy'r byd heb wneud cam-gymeriad ryw dro, gan fod dynoliaeth ymhell o berffeithrwydd eto, a dyna paham y mae mor bwysig i ni fyw bywydau glân ac aruchel a fyddo'n esiamplau er daioni i eraill, ac i adael y byd ychydig yn well nag ei cawsom.

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe.

GAN HAYDN MORGAN.

AMLINELLIAD O DDATBLYGIAD EIN CANIADAETH GYNULLEIDFAOL.

Y SALMAU CÂN

GEILW'R teitl "Salmau'r Mynydd" i'n cof, y ffaith mai'r salm fydryddol, yn hytrach na'r emyn, oedd bwysicaf yn y ganiadaeth gynulleidfaol yn gyntaf, a bod yr enw salm, wedi glynu wrth gyhoeddiadau o hymnau a salmau, hyd at ganol y ganrif ddiwethaf.

Yn wir, fe allai'r salm fydryddol fynegi'r agwedd sectaidd o'r ysgrythur yn well na'r emyn personol a'r salm wreiddiol ei hun, drwy blygu ystyr adnod gan gadw'r dilysrwydd ysgrythurol. Daeth felly yn gymaint o fynegiad o'r ddiwinyddiaeth arferol fel nad rhyfedd i Josiah Rees, yn ei gasgliad ddethol salmau cymwys at y gwasanaethau yng Ngellionnen, yr amser hwnnw, pan oedd tair carfan—Bedyddwyr, Calfiniaid ac Arminiaid yn ei gynulleidfa ar y mynydd.

Yn 1812, fe fydryddwyd y salmau ar ffurf emynau gan Iolo Morganwg ar amryw fesurau, gydag amcan at grefydd mwy rhydd, a llai iawn-ffyddol, fel nad hawdd canfod yn fynych y salm yn ei drosiad, nac hefyd hyd yn oed, mai salm fydryddol ydyw. Rhan o'i salm 42 (Cyfrol I) yw ei emyn "Dŵr y bywyd sy'n ffynhonni" [diddorol yw cofio pan ganwn hwn, ar y dôn "Lyons" mai dyma'r hen dôn ar gyfer y salm 42, o'r blaen] ac yn salm 9, fe gawn ganddo fydryddiad o weddi'r Arglwydd !

Felly gellir dweud bod yr enw salm yn gallu dynodi *emyn*, ac oblegid hynny tybiwn nad anghymwys y dyw teitl Salmau'r Mynydd i'w gynnwys, sef caniadaeth o fawl â'r un amcan â'r salmau eu hunain, sef moli ar gân.

Nid mater personol yn unig oedd crefydd yr oes o'r blaen, ond peth swyddogol yn gyntaf, moddion iachawdwriaeth, a ddaeth drwy gyfrwng yr eglwys a'i defodau ; dim ond mewn ufudd-dod i'r drefn allanol, a'i harferion, y byddai'r dwyster personol yn cael dod i mewn o gwbl. Peidier heddiw, a bychanu'r sistem hon, cyfyng ac adweithiol efallai, oedd, a gorthrymus yn erbyn y rhai a geisient amau ond yr oedd hi'n drefn a godai lefel y bobl o ddiffyg cred o gwbl, ac fe sicrheid terfynau moesol i gymdeithas drwyddi.

Adeiladol yw moliant gwir yn y gymanfa ganu heddiw, yn y seiat, ac yn yr ŵyl bregethu. Pwy a wâd nad dyrchafol oedd penlinio mewn edifeirwch o flaen yr allor lle drwy ffydd yr arddangoswyd corff a gwaed Crist drwy'r bara a'r gwin yn y cymun sanctaidd, a gwrando ar yr hen weddïau cynefin Lladin urddasol, a wedyn myfyrio ar homili Gymraeg yr offeiriad ? Byddai ystyr y defosiynau'n eglur, er nad oedd y brawddegau'n glir i gyd, ond gŵyr pawb ag sydd wedi gwrando ar er enghraifft "Stabat mater" hyfryd Pergolesi yn Lladin fod ei neges mor eglur a phe bai'n Gymraeg neu Saesneg. Nid yw yn llai prydferth o'r un iod ond efallai'n fwy felly oherwydd nid yn unig mae'r Lladin yn fawreddog, ond hefyd y mae yn iaith agored, ganadwy.

Pan ddaeth y diwygiad protestanaidd, daeth hefyd y syniad o anffaeledigrwydd yr ysgrythur i lanw lle'r un am anffaeledigrwydd swyddogaeth yr eglwys.

Felly wedi trosi'r Beibl i iaith y werin nid oedd le i unrhyw emyn personol yn y ganiadaeth gorawl, dim ond lle i'r ysgrythur yn unig. Ac nid cwestiwn o gadw'r hen weddïau gosod yn lle bod y

bobl yn cael meddwl drostynt eu hunain ydoedd, ond mater o draddodiad—nid oedd gweddïau personol wedi bod yn arferedig mewn gwasanaethau cyhoeddus, dim ond yn breifat ac yn dawel.

Y salmau cân felly, oedd yr unig ganiadaeth a allai ddod ar y dechrau, ac fe arhosodd y syniad hwn amdanynt ! Ar y cyntaf cadwai'r mydryddiadau ystyr y gwreiddiol, mor agos ag oedd yn bosibl. Hefyd gyda Chalfin, fe gadwai'r miwsig, arafwch ac urddas yr hen ganu Catholig, er bod Luther wedi cyfansoddi hymnau a'u canu ar alawon gwerin yr Almaen (hwnnw'n wir oedd gychwynydd yr emyn a'r dôn gynulleidfaol).

Ar ôl hynny fe ddechreuwyd mydryddu'r salmau'n fwy "rhydd" er mwyn cyfateb a chredo enwad.

Salmau cân "Sternhold and Hopkins" oedd y rhai cyntaf yn Lloegr, fe'u cyhoeddwyd yn 1562, ac am 150 o flynyddoedd dyma unig lyfr emynau'r Saeson ! Yn y mesur cyffredin y maent gan amlaf a dyma'r mydryddiad a ddefnyddiwyd hefyd gan mwyaf yn yr Alban—hen fydryddiad enwog. Fe ymgartrefodd ei acenion yng nghalon ac enaid y frawdoliaeth Seisnig ; ond cofier fe chwarddwyd am ben yr hen salmau hyn hefyd, ac fe'u hefelychwyd yn ddireidus mewn parodïau, ond pan ddaeth mydryddiad rhagorach "Tate and Brady" allan yn 1696, deisyfwyd yn erbyn yr un newydd, a pharhawyd i argraffu'r hen un am flynyddoedd.

Yr oedd mydryddiad arall, newydd, wedi ymddangos eisoes yn yr Alban yn 1650, un gan mwyaf o waith Francis Rous. Er i Scotland ddod o dan yr un goron a Lloegr wedi dyfodiad Elisabeth yn 1603, eto fe gadwodd ei senedd ei hunan, hyd at 1707, a wedyn parhaodd i gadw'i llysoedd barn a'i chyfundrefn grefyddol (bresbyteraidd) ei hunan,—mor wahanol i Gymru !

Yn 1719 fe gawn fydryddiad arall, un answyddogol, ymneilltuol, enwog y Dr. Isaac Watts—ysgrifennodd hwnnw yn ei ragymadrodd.

"A pha fai a fydd o helaethu ychydig ar y testunau mwyaf defnyddiol, yn null ymadrodd yr efengyl, lle byddo'r salm yn rhoddi'r achlysur, gan fod holl grefydd yr Iddewon wedi'i farnu'n fynych yn y Testament Newydd, fel peth diffygiol ac amherffaith."

Cawn sôn am yr Iesu, yr eglwys a'r Iawn yn y salmau hyn.

Wele syniad newydd am ddehongli'r ysgrythurau,—plygu'r ystyr i ateb y gred, syniad Catholig mewn cyfundrefn annibynnol—dyma droedigaeth ryfedd i'r ymneilltuwyr, ond un a gymerodd ganrif araf deg i ddigwydd.

Daeth salmau Watts yn eiddo i'r Cymry drwy gyfieithiad godidog Dafydd Jones o Gaeo yn 1753. Daeth y syniad newydd i mewn hefyd i gasgliad Josiah Rees yn 1797. Wele hwnnw yn ei ragymadrodd yn mynd ymhellach, dywed, "y pethau ag y mae gwŷr da duwiol yn methu cyttuno yn eu cylch, ni allant fod o gyffelyb bwys a'r pethau mawrion ac arbennig hynny, ag yr ydym oll yn rhwym i'w cydweled yn yr un goleuni, ar sail eglur yr ysgrythurau sanctaidd,

Y pethau mawrion hyn yn unig, a ddylai fod yn fater o'n cyflawnder defosiynol, yn ein cyfarfodydd cyhoeddus. Oblegid yno, y mae gan bob Cristion gwan hawl i bob help a allo gael tuag at ddwyn ymlaen ei ddefosiwn, ac yn ganlynol, ei adeiladwaith ysbrydol. A'n dyled yn sicr yw cynorthwyo y nail a'r llall, hyd y gallom, yn y gorchwyl mawr o foli Duw, ac felly cydymbaratoi ar gyfer gwaith y nefoedd. Bydd pawb dynion da yn cydganu yno, er nad ydynt yn gallu cydweled yma mewn amryw bethau".

Nid yn unig y mae hyn yn golygu plygu'r salm at y gredo, ond hefyd golyga ymestyn y gred i gyfateb â'r amrywiol ddehongliadau ohoni.

Daeth crefydd ryddfrydol i Gellionnen ond parhaodd yr ysgrythurau i fod yn "sanctaidd".

Cyfieithiodd Edmwnd Prys, ddysgedig, ei salmau o'r Hebraeg; cyd-efrydydd oedd i'r Dr. William Morgan, yng Ngholeg St. Ioan yng Nghaergrawnt (lle y dadlennir tablet goffa iddynt y mis hwn). Ystyrid fod ei waith yn cadw'r ystyr yn gystal a chyfieithiad y Beibl ei hun.

Ond ysgrifennodd Edward Williams (Iolo Morganwg) yn 1812 o'i ddeall ei hun, ei "Salmau ar gyfer yr eglwys yn yr *anialwch*" lle'r oedd y wir eglwys, yn ôl ei ragair wedi cael ei gyrru gan eglwys Rufain, eglwys Calfin ac eglwys Cromwell. Ychwanegodd ei fod, *am iddo gael ei annog gan gyfeillion dysgedig, yn eu plith gapelwr Esgob Llandaff, Theophilus Lindsey ac eraill yn gystal yn yr eglwys sefydledig ac ymhlith yr ymneilltuwyr*"—yn 'sgrifennu salmau ar gyfer "Cristionogion diragfarn o bob enw a phlaid". Amcanodd at fydryddiad llithrig a rheolaidd "herwydd hen gelfyddyd cerdd Arwest"—a rhagflaenodd y cwbl gan ddeunaw o englynion gwych.

Ond er i John Jones, Aberdâr ddefnyddio'r salmau yma yn unig, yn ei Gasgliad o Hymnau a Salmau, yn 1859, fe wrthododd amryw ohonynt oherwydd bod "rhai wedi'u sefydlu ar chwanegiadau at air Duw, eraill hefyd yn perthyn yn rhy agos at farn John Calfin". Dywedodd hefyd y dylai prydyddion "dalu mwy o sylw i acenion y mesurau er mwyn llithrigrwydd eu gwaith" a byddai mwy o ganu ar salmau Edmwnd Prys pe "buasai'n talu mwy o sylw i hyn o beth". Ond dim ond oddeutu deugain o salmdonâu araf oedd yn arferedig yn amser yr Archddiacon ac nid oedd yr un cymanfa ganu wedi'i chynnal erioed bryd hynny. Ac yn awr gyda'r tonau newydd, ystwythach, yr oedd yr hen salmau cân yn anhyblig!

Ond fe wnaethpwyd cais teg i ddod ag amcan Prys i gyfateb â'r ganiadaeth newydd. Wele yn 1850, Morris Williams, "Nicander", Periglor Amlwch, yn mydryddu'r salmau i gyd, ar gyfer yr eglwys sefydledig yng Nghymru, a hynny ar amryw fesurau gan gadw mor ofalus ag y gallai at ystyr lythrennol yr iaith wreiddiol, heb geisio "ysbrydoli" nac "efangyleiddio" salmau "peraidd ganiedydd Israel" o gwbl.

Gwelwn yn nes ymlaen fel y daeth yr "Anglican Chant" gyda'r organ i'r llannau, a thrwy hynny sut y daeth ffordd hynach o ganu'r salmau i gymryd lle'r salmau cân.

SALM 9.

Gan EDWARD WILLIAMS.

Ein Tad o'r nef ein dwyfol Ri
Pob enaid byw rhoed fawl i Ti
Anfeidrol yw Dy gariad clau
A byth dragywydd i barhau.

Sancteiddier D'enw ein Brenin mawr
Drwy'r bydoedd oll bob dydd bob awr
Bucheddu'n sanctaidd boed i ni
Gan rodio'n ôl d'orchymyn Di.

Dy deyrnas nefol deued hon
Gan lwyr feddiannu'r ddaear gron
Boed iddi gadarnhau mhob rhith
Llywodraeth cariad yn ein plith.

D'ewyllys doeth o gwneler ef
Yn y byd hwn fel mae'n y nef
Dy wyllys mâd beth bynnag yw
Yn hynny'n unig y cawn fyw.

Cawn o Dy law'r haelionnus Dad,
Feunyddiol ymborth heb naccâd,
A bara'r nef o dyro i ni
Yn fywyd i'n heneidiau ni.

Fal y maddeuwn i bob rhai
A wnant i'n herbyn ddim ar fai
Wrth yr un mesur boed i ni
Gael maddau'r trosedd gennyt Ti.

Bydd ein diffynnydd yn ein byw
Dan brofedigaeth o bob rhyw
O ddrygau'r byd i'th deyrnas draw
Dwg ni'n ddihangol yn Dy law.

Ti biau'r deyrnas, Ti'n ddi-lyth
A'r gallu a'r gogoniant byth
Boed i Ti'r clod o nefol Dad
Ac yn dragywydd ei barhad.

Duw i ni wyt Ti a'n Tad—a folwn
Yn felys ar ganiad
A geiriau'n honni'th gariad
Iawn yw'n mawl i ti'n Ion mâd.

(*I Barhau*).

CHWEFROR.

Gan y Parch. S. B. JONES, Peniel (yntau'n un o ddeuddeg o blant).

NID rhyfedd, Chwefror bach, dy fod mor gas
A ffyrnig dy dymherau'n nhwll y clo
A'th frodyr mawr i gyd yn byw yn fras
Hyd luosowgrwydd dyddiau yn eu tro.
Gwrandawaf dy ddialedd yn y drain
A gweld dy felltith yn y pistyll dŵr ;
A chwarddaf pan fo'th wynt yn hyrddio'r brain
Yn bendramwnwgl rywle i allt Tredwr.
Pwy roddodd hawl erioed i'r un-ar-ddeg
I'th dreisio di fel hyn, a dwyn dy ran ?
Ac yna'n dod, ac esgus bod yn deg,
A dydd i ti yn awr ac yn y man !
'Rwyf finnau'n un o ddeuddeg, heb ddim bri ;
Mae un, beth bynnag, yn dy ddeall di.

Traethawd : "Yr achosion am y dirywiad Crefyddol yn ein gwlad."

(*Parhad*).

RHAN IV.

GADAWER imi gyfeirio eto at bennau fy nhraethawd, a gwneud sylw neu ddau ar rai, onid ar bob un ohonynt.

I. *Lledaeniad Gwybodaeth Wyddonol.*—Dylanwadodd hyn gryn lawer ar y plant a'r ieuenctid. Dysgid y plant ar y Sul am hanes y creu, y Cwymp yn Eden, etc., ond yn yr ysgol bob dydd sicrheid hwy mai trwy ddatblygiad y daeth y byd a'r hyn oll sydd ynddo—yn cynnwys dyn—i fod. Y canlyniad fu creu anesmwythder ac amheuaeth yn eu meddyliau. Gwir a ddywaid yr Athro Idwal Jones, Aberystwyth, yn ei ysgrif yn y llyfr *Credaf* : "Dedwydd yw'r llanc nad yw'n rhaid iddo ddad-ddysgu llawer o'r hyn a ddysgodd gynt, ac o ganlyniad golli ffydd yn ei athrawon. Yn fynych, un o'i anawsterau mwyaf yw cysoni'r gwirioneddau a glyw yn yr eglwys â'r wyddoniaeth a ddysg yn yr ysgol".

II. *Llyfrau'r R.P.A.*—Cafodd y llyfrau Rhyddfeddyliol hyn gryn effaith ar syniadau'r bobl ieuainc—yn enwedig ar y bobl ieuainc darllengar a deallgar. Fel y dywaid Abel Hughes yn *Rhys Lewis* : ". . . fel rheol nid ymhlith y dosbarth anllythrennog, anwybodus y cei di amheuwyr, ond ymhlith y dosbarth darllengar, myfyrgar". Ac nid aros yn "amheuwyr" a wnaeth llawer ohonynt, ond mynd yn anffyddwyr hollol. Bu'r rhan fwyaf ohonynt yn lled ddistaw ynghylch eu hanffyddiaeth—yr oedd ganddynt rieni a pherthynasau crefyddol ; ond collwyd hwy o'r eglwysi a'r capeli yn llwyr.

III. *Diwygiad 1904-05.*—Ni wnaeth y pethau ehud a ddywedid yn y cyfarfodydd, ac yn enwedig cadw'r cyfarfodydd ymlaen tan berfeddion y nos, ddim lles parhaol i grefydd.

IV. *Y Blaid Lafur a'r I.L.P.*—At yr unigolyn yn unig yr oedd apêl y "Diwygiad". Ac i raddau helaeth, dyna apêl Cristionogaeth hyd heddiw. Pechod anfaddeuol ydyw meddwi, er enghraifft ; ond gall dyn fod y mwyaf crintachlyd a chybyddlyd ar wyneb y ddaear, a gadewir iddo aros yn y sêt fawr yn hollol dawel a hunan-foddhaus ; caiff un arall a fyddo'n talu'r cyflogau isaf posibl i'w weithwyr ei gyfrif yn ddyn gofalus, cynnil, a darbodus. 'Sgwn i a ddisgyblir ffermwr a gaiff ei ddirwyo am beidio talu'r cyflogau cyfreithiol i'w weithwyr, neu am roi dŵr yn y llaeth, o ran hynny.

Yn ystod y blynyddoedd pan ydoedd yr *I.L.P.* yn dechrau cael clust a sylw'r cyhoedd digwyddodd streic ar reilffordd Cwmni

Dyffryn Taf, yn Neheudir Cymru—cwmni a dalai gyflogau diarhebol o isel. Yr oedd ugeiniau o wagenni yn llawn o lo yn sefyll yn segur yn y *sidings* yng Nghaerdydd. Ysgrifennodd rhywun—aelod o Fyddin yr Iachawdwriaeth meddid—y geiriau hyn â sialc mewn llythrennau breision ar ochr y Wagenni : "THE WAGES OF SIN IS DEATH".

Erbyn bore drannoeth yr oedd rhyw wag wedi ychwanegu oddi tanynt :

"BUT THE WAGES OF THE TAFF VALE RAILWAY ARE A DAMNED SIGHT WORSE".

Gelwch chwi yr ail frawddeg yn un ryfygus ac anystyriol os mynnwch chwi ; ond anodd cael dwy frawddeg a ddengys safbwynt y crefyddwr ar un llaw, a'r diwygiwr cymdeithasol ar y llaw arall yn well.

V. *Rhyfeloedd 1914-18 a 1939-45.*—Dangosais fel y bu i agwedd gweinidogion tuag at ryfel effeithio ar lawer. Nid oes, mewn gwirionedd (hyd y gwelaf i), ddim mewn Cristionogaeth sydd yn anghyson â rhyfela. Ond yr oeddym ni, Gymry, wedi bod yn genedl heddychol ers rhai cannoedd o flynyddoedd. Henry Richard ("Apostol Heddwch") oedd ein harwr, ac nid y Cadfridog Picton. Sonnid wrthym byth a hefyd am "Dywysog Tangnefedd" (syniad o'r Hen Destament, gyda llaw) ; am Esaiah yn dweud, "a hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau" ; ac am yr Iesu yn rhoi'r gorchymyn hwn i Petr : "Dod dy gleddyf yn y wain". Ond, yn rhyfedd iawn, ni sonnid dim am yr adnod yn Llyfr Joel sydd yn dweud, "Gyrrwch eich sychau yn gleddyfau, a'ch pladuriau yn waywffyn ; a dyweded y llesg, Cryf ydwyf". Ie, y rhai a oedd yn nosbarth Ciii a'r cwbl ! Sylwer mai'r gorchymyn iddynt hwy oedd dywedyd "Cryf ydwyf". Anaml iawn, hefyd, y crybwyllid, am yr adnod yn Math. x. 14, lle yr adroddir am yr Iesu yn dweud "Na thebygwch fy nyfod i ddanfon tangnefedd ar y ddaear : ni ddaethum i ddanfon tangnefedd, ond cleddyf" ; ac anghofid, yn bur gyfleus, yr adnod yn Luc xxii. 36, lle y gorchmynnai i'w ddisgyblion : "ond yn awr y neb sydd ganddo bwrs, cymered ; a'r un modd gôd : a'r neb nid oes ganddo, gwerthed ei bais, a phryned gleddyf". Do, bu offeiriaid a Lefiaid yr oes hon yn ddigon call a chyfrwys i fynd o'r "tu arall heibio" i'r adnodau a ddyfynais ddiwethaf. Yn wir, credaf nad oes ond rhyw un o fil o aelodau eglwysig Cymru a ŵyr am yr adnod yn Joel iii. 10.

VI. *Y Sinemâu.*—Ni raid ond dweud hyn am y sinemâu : fe'u derbynnir nhw i'r seiat cyn bo hir—fel y gwnaed â'r ddrama. Pan oeddwn i'n hogyn melltithid y ddrama a'r theatr fel pethau esgymun, ond erbyn hyn y maent "yn hen a pharchus".

VII. *Anghrediniaeth.*—Un o'r pethau mwyaf anodd ar y ddaear ydyw cael gan grefyddwyr gyfaddef mai am nad ydynt, mwyach, yn credu yng Nghristionogaeth—neu mewn "crefydd"—y gedy pobl yr eglwysi. Ond y ffaith yw, y mae Beirniadaeth Feiblaidd wedi cloddio o dan sylfeini Protestaniaeth. A chrefydd "y Beibl", yn anad dim arall, ydyw Protestaniaeth, yn arbennig Protestaniaeth yr Enwadau Ymneilltuol. Pan deflir amheuaeth ar gywirdeb yr hanesion a geir yn y Beibl, ac y dechreuir esbonio "ysbrydoliaeth y Beibl" fel rhywbeth nas gellir ei gymhwyso *at bopeth* yn y "gyfrol santaidd", ond fel rhywbeth sydd mewn rhyw ffordd anniffiniadwy yn treiddio trwy'r Beibl i gyd, ac nid at unrhyw beth neilltuol ynddo, neu at ran arbennig ohono, y mae'r crefyddwr ar y lithrigfa.

A chofier hyn : gyda chrefydd, yn wahanol i bron bopeth arall, sicrwydd a phendantrwydd y mae'r credadun yn ei ymofyn yn anad dim. Gwir a ddywedodd "Sylwedydd" yn *Y Goleuad*, am Ion. 30, 1946 : "Am fwy o *sicrwydd* yn y pulpud y gofynnir heddiw". Ac y mae "Sylwedydd" gyda'r craffaf o weinidogion yr Hen Gorff. Ond nid sicrwydd a geir ym mhregethau'r dyddiau hyn, ond rhyw sentimentaliaeth annelwig ac amhendant. Fel praw o'r hyn a ddywedaf, sylwer bod amryw o'r rhai yr edrychir arnynt fel ein deallusion (*intellectuals*) wedi troi yn Babyddion neu yn Eglwyswyr : Saunders Lewis a Catrin Huws (Mrs. J. E. Daniel) wedi eu derbyn i Eglwys Rufain, a Mr. T. I. Ellis, Mr. Aneirin ap Talfan a Mr. D. Gwenallt Jones, wedi ymuno a'r Eglwys yng Nghymru. Ac y mae dau o'r pump—Saunders Lewis ac Aneirin ap Talfan—yn feibion i weinidogion gyda'r Hen Gorff ; a merch i "Bregethwr Sentars" ydyw Mrs. J. E. Daniel. Mae'n amlwg ddarfod i'r ddau a drodd yn Babyddion gael hcddwch i'w meddyliau yng nghyfundrefn athrawiaethol haearnaidd Eglwys Rufain, a bod y tri arall wedi eu denu gan rywbeth tebyg yn athrawiaeth a defodau *Anglo-Catholic* yr Eglwys yng Nghymru.

Yn 1944 pasiwyd Deddf yn gorfodi rhoi hyfforddiant crefyddol yn yr ysgolion bob dydd. Yr oedd y rhan fwyaf o grefyddwyr—o bob eglwys ac enwad—yn ffafriol i'r Ddeddf newydd, hyd yn oed amryw o'r rhai a fu gynt yn selog dros Ddatgysylltiad ! Cafwyd "Maes Llafur Cytûn" (*Agreed Syllabus*) yng Nghymru. Y mae "Rhagarweiniad" y Parch. G. A. Edwards, M.A., D.D., Aberystwyth yn un diddorol. Mae'n amlwg mai ar gyfer athrawon yn bennaf yr ysgrifenwyd ef. Safle'r diwinydd "modern" ydyw un y Dr. Edwards. Am Moses dywaid ef : "Nid ysgrifennodd ef y Pentateuch, ac ni chredai mai Jehofa oedd yr unig Dduw mewn bod (undduwiaeth), eithr gorchymynnodd mai Jehofa oedd i fod yn unig wrthrych addoliad yr Hebrewyr (*monolatry*) yn hytrach na *monotheism*, a chysylltodd yr addoliad hwnnw â gofynion moesol (yn hytrach na rhai defodol yn unig neu yn bennaf) a dyrchafodd grefydd Israel

uwchlaw'r rhai o'i chwmpas". Dywaid y Dr. hyn am broffwydi'r Hen Destament : "Unwaith darllenid ac astudid hwynt am y credid mai rhagfynegwyr y dyfodol oeddynt yn bennaf, ' proffwydi ' yn ystyr lythrennol y gair. Ond gwelir erbyn hyn mai elfen eilradd yn eu gweinidogaeth oedd honno". Felly yr hyn a eilw'r Weinyddiaeth Lafur yn "alwedigaeth atodol" (*subsidiary occupation*) oedd "proffwydo" i'r proffwydi ! Ymhen peth amser wedi i'r Ddeddf ddod i rym penodwyd Mr. J. E. Daniel yn Arolygydd Hyfforddiant Crefyddol yn ysgolion Cymru. Anerchodd ef gyfarfod, yn Llanbedr o athrawon sir Aberteifi (lle y mae nifer o Undodwyr), a dywedodd wrthynt yn hollol blaen y disgwylid iddynt ddysgu Cristionogaeth uniongred yn yr ysgolion. Dyma hi : y "Wybodaeth Newydd" mewn Rhagarweiniad ar gyfer yr athrawon, a'r "ffydd a roddwyd unwaith i'r saint" i'w dysgu i'r plant ! Ymddengys y cyfiawnheir "chwarae'r ffon ddwybig" yn yr ysgolion yn ogystal ag yn y pulpud !

Y mae lle i dybied hefyd bod y gred mewn Rhagluniaeth yn edwino'r dyddiau hyn. Beth am y nodyn hwn gan Ddyfnallt, yn *Y Tyst*, Hydref 5, 1950 ? Wedi cyfeirio at y cynhaeaf gwael a gawsom eleni, ebr ef : "Faint ohonom a fynnai bwyso ar athrawiaeth yr hen emyn annwyl fod Rhagluniaeth yn tynnu i lawr yma ac yn codi draw,

"Rhagluniaeth fawr y Nef
Mor rhyfedd yw" ?

Beth, tybed, fydd hanes a thôn y Cyrddau Diolchgarwch eleni yn wyneb hyn oll ?" Os mai dyna gyflwr pethau yn "y pren ir" (y weinidogaeth), beth am "y pren crin" (yr aelodau a'r gwrandawyr)?

Diddorol iawn oedd gwylio agwedd y gwahanol enwadau tuag at y trai crefyddol yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf, dyweder. Pan ydoedd y cynulleidfaoedd yn graddol leihau, credid a dywedid, mai rhywbeth tros dro ydoedd—"difaterwch wyddoch". Pan ddechreuodd yr Ysgol Sul ddihoeni cymerwyd golwg fwy difrifol ar bethau. Dechreuodd rhai eglwysi gwag fod yn bur amharod i alw gweinidiogon i'w bugeilio ; ar yr un pryd yr oedd nifer yr ymgeiswyr am y Weinidogaeth yn lleihau. Sefyllfa "ddifrifol i'r eithaf" ydoedd hon. Ond yn awr y mae penaethiaid y gwahanol enwadau mewn braw a dychryn—mewn *panic* : y mae'r gweinidogion yn *gadael* yr enwadau wrth y degau, ac yn cymeryd swyddi mewn cylchoedd eraill, fel Swyddogion Mudiadau Ieuenctid, etc., etc. Yr oedd gweled amharodrwydd rhai i ddyfod yn brentisiaid i'r swydd yn beth seriws, ond y mae gweled y gweithwyr yn y winllan yn taflu eu swyddi i fyny yn beth digalon tu hwnt.

Wedi'r cwbl pwy a all feio'r gweinidogion hyn ? Gallaf yn hawdd ddychmygu am lawer gweinidog cydwybodol—gyda llyfr Bleddyn J. Roberts a llyfr yr Esgob Barnes (*The Rise of Christianity*)

wrth ei benelin—ar brynhawn Sadwrn pan fyddo'n rhoi golwg derfynol ar ei bregethau ar gyfer trannoeth, yn synfyfyrio, â'i ben rhwng ei ddwylo, ac yn murmur, "Beth, mewn difri', 'ddylwn i ddeud wrth y bobl yfory ?"

Dywaid hen longwyr fod llygod yn gadael llong sydd yn mynd i suddo. Os deil y gweinidogion i adael yr Enwadau Ymneilltuol yng Nghymru ar y raddfa bresennol suddo fydd eu hanes hwythau.

Gellid ysgrifennu llawer rhagor ar y testun. Enwais amryw o bethau y bu iddynt i ryw raddau beri'r dirywiad crefyddol yng Nghymru, ond y *prif* achos—yn ddi-os—ydoedd ddarfod i grynswth mawr y werin golli eu ffydd mewn crefydd. Ni ellir disgwyl i "geidwaid yr athrawiaeth" addef hynny ; ond "waeth befo", chwedl Wil Bryan.

(*Diwedd*).

[Cyhoeddwyd y traethawd air am air fel ei hysgrifennwyd gan yr awdur. Nid yw hynny yn golygu fod y Golygydd yn cytuno a phob gair ohono, a bwriedir cyhoeddi rhai sylwadau arno yn y rhifyn nesaf. Gwahoddir eraill hefyd i fynegi eu barn, boed gytundeb neu anghytundeb—y mae'n bwnc sy'n haeddu ein sylw dwys.—*Gol.*].

Miss R. M. Evans, Ffynnonfair.

[Gan N. a N.]

Y MAE 'Minnie' fel y galwai'i chyfeillion hi, wedi mynd adref, ac o feddwl am ei mynd, daw geiriau Poe i'm côf :—

"Thank heaven, the crisis—
The danger is past ;
And the lingering illness
Is over at last,
And the fever called 'living'
Is conquered at last."

A rhaid cyfaddef y gwir, o wybod am y boen a'r nychdod hir, diolchwn fod ei hysbryd llon a serchus wedi'i ollwng yn rhydd. Yr oedd pawb yn y Sir bron yn ei hadnabod. Fe'i ganwyd yn Lanlas Uchaf, Cellan a gloywodd ei harfau yn ysgolion y cylch, yn ysgol Northallerton, Swydd York ; Prifysgol Cymru, Aberystwyth (N.D.D.) ; Prifysgol Reading ; Coleg Amaethyddol Kilmarnock ; a Choleg Prifysgol Cymru Caerdydd. Yn 1913

fe'i hapwyntiwyd yn ddarlithydd yng Nghastell Madryn (pedair blynedd) ; Hyfforddraig mewn llaeth yn Sir Fôn (chwe mlynedd), ac yn 1923 cafodd y swydd o Hyfforddraig mewn llaeth a dofednod yn Sir Aberteifi, ac yn 1947 fe'i dyrchafwyd yn Swyddog Cynghorol Llaeth dros y Sir hyd iddi ymddiswyddo rai blynyddoedd yn ôl. Dyna'r manion moel, yr esgyrn sychion ! Ond ni ddwed y manion nemor am ei bywyd prysur a llawn, a dywedaf innau :—

"A sorrow's crown of sorrows
Is remembering happier things."

Ryw bum mlynedd a deugain yn ôl, mwy neu lai, y dois i'w hadnabod gyntaf erioed, a chwarddasom ein dau am y tro lawer gwaith wedyn. Yr oeddem ein dau yn Aberystwyth ynglŷn â rhyw gyrsiau neu gilydd yn y Coleg, a threuliasom hwyr ynghwmni'n gilydd ar y traeth yn gwrando'r tonnau'n dweud eu cyfrinach. Yr wyf i heddiw eto ar y traeth yn gwrando tonnau tragwyddoldeb, a hithau wedi croesi ac yn gwybod y cyfrinachau i gyd. Pe gofynnid i mi ddarlunio'i bywyd mewn un gair, dywedwn yn ddibetrus mai *Rhyddfrydig* (*Liberal*) a fuasai'r gair hwnnw.

Yr oedd yn rhyddfrydig â'i hamser, yn rhy ryddfrydig o lawer iawn yn aml. Nid arbedodd ei hun. Yng ngwaith ei swydd teithiodd bob congl o'r hen Sir gan ddychwelyd gefn nos droeon. Y mae llawer o'r clod am fod Sir Aberteifi ar y blaen am laeth glân yn ddyledus i waith gonest a diflin Minnie. Caiff arall y clod. Gwnaeth hithau'r gwaith. Ni ŵyr odid neb am a wnaeth mewn sioe wrth hyfforddi a barnu. Ond ar ben ei gwaith yn y Sir, y gwaith y'i telid am ei wneud, yr oedd ei gwaith dros bob cymdeithas fach. Nid oedd raid ond gofyn, ac yr oedd yn barod gyda darlith, sgwrs neu 'ddemonstration.' Nid oedd pallu yn yr un groen a hi, a chadwodd y gannwyll ynghynn mewn llawer cymdeithas fach ar hyd y blynyddoedd. Hi hefyd oedd un o'r tair a deithiodd o gapel i gapel yn y Sir er mwyn ein hannog fel enwad i sefydlu Urdd y Benywod, ac nid oes ond un o'r tair ar ôl weithian. Ni weithiodd neb yn fwy diwyd na hi dros y mudiad, ac yr oedd Urdd y Benywod yn agos at ei chalon i'r diwedd. Yng nghynghorau'r enwad, gartref ac yn Llundain, yr oedd yn barod i godi'i llais dros egwyddor, dros grefydd rydd a thros Grist. Yr oedd yn rhyddfrydig o hael ar ei hamser, yn rhy hael droeon. Gweithiodd yn rhy galed yn y Sir, gyda'r enwad ac yn ei chartref. Credid fod ganddi flynyddoedd o seibiant, ond yr oedd wedi trethu gormod ar ei chorff, ac aeth adref yn rhy gynnar, yn ein tyb ni. Bydd ei lle'n wâg yn y Sir, yng Nghapel y Groes ac ar hen aelwyd Ffynnonfair,—

"Ond dywed ei chynhaeaf
Gweithwraig fu."

Yr oedd rhywbeth yn arwyddocaol yn y ffaith iddi farw megis yn sŵn yr etholiad. Aeth adref heb wybod fod yr egwyddor a bleidiai a'r blaid a gefnogai wedi mynd dan gwmwl, dros dro, o leiaf. Yr oedd yn *Liberal*, a rhuddin rhyddfrydiaeth yr hen sir ynddi. Yr oedd fel ei theulu yn driw i'w hegwyddor. Pe cefnai pawb ar Ryddfrydiaeth, ni chefnai hi. Gwelai mewn gobaith y dyddiau'n dod pan oleuai Oes Aur Rhyddfrydiaeth fel cynt. Carai gofio am ogoniant Bowen Rowlands, Gladstone, Campbell Bannerman, Asquith, Lloyd George a'r cedyrn eraill. Droeon y'm perswadiai i lynu'n dynnach wrth yr hen egwyddorion. Nid oedd raid ond esgus cefnu, cyn ei gweld yn gwrido'n siomedig. Ni safodd neb yn fwy stond dros Ryddfrydiaeth a cholled i'r blaid ac i egwyddor oedd ei marw hi. Ni phleidiodd Ryddfrydiaeth am a gai. Ni chafodd hi, mwy nag eraill ddim. Cai hi weithio drosti, a chai eraill anrhydedd a chlod. Pleidiai hi Ryddfrydiaeth am fod egwyddor ynghlwm am wreiddiau'i chalon. *Liberal*, ie, *Liberal* i'r diwedd !

Nid oedd raid i neb otyn beth oedd cred Minnie. Yr oedd yn Undodraig i'r craidd. Ni wadodd ei ffydd erioed, ac ni feiddiai neb ddweud gair bach amdani, a hithau'n agos. Nid oedd yn gul. Yr oedd ganddi ffrindiau ymhob enwad, ond gwyddid ble y'i caed hi. Cerddodd yn ifanc i Gaeronnen, ac yr oedd i Gaeronnen le cynnes yn ei chalon i'r diwedd. Wedi dod i fyw i Ffynnonfair, ymaelododd yng Nghapel y Groes, ac ni bu ei ffyddlonach yn ei ffordd ei hun. Hwyrach na ddoi cyn amled â rhai, ond o gofio'i galwadau yn y Sir ac yn y cartref, credai iddi ddod cyn amled ag y gallai. Ni chollai gyfarfod o Urdd y Benywod, a rhoi sgwrs yno ar hanes yr hen gedyrn, a gwelsech ei llygaid yn lleithio o alw i gof sêl ac egwyddor yr hen famau yn Israel. Yr oedd yn Gymraes ac yr oedd wrth ei bodd mewn Eisteddfod, Cymanfa Ganu, Cymdeithas Hynafiaethol neu'r Cymrodorion. Fel un a oedd yn ffyddlon i les a llwyddiant uchaf yr enwad, hawlia le uchel ym mharch a serch ein mudiad bach.

Ys dywedir yn Ne Profundis,—

"The most ideal joy is found in service. It is the keynote of existence ; service both here and hereafter, service in the highest. O ! this is what is meant by the Joy of the Lord."

Llawenydd pennaf ei bywyd oedd gwasanaethu, ac ymhlith niter mawr o wragedd ffyddlon y sydd wedi gwasanaethu ein mudiad ni, nid y lleiaf o bell ffordd oedd Minnie.

Hyd y gwelaf yr oedd pawb yn ffrind iddi. Ni allai neb ddigio'n hir wrthi. Yr oedd rhywbeth yn agos ynddi, a dyna pam y dywedaf ei bod yn rhyddfrydig o galon. Ni chlywais air angharedig amdani gan neb, a pherchid hi gan bawb a'i hadwaenai. Pe baem yn ei darlunio ag adnod dywedwn,—

"Da ac uniawn : selog o weithredoedd da, a rhoes Duw iddi galon fawr."

Yr oedd rhywbeth yn fonheddig yn ei threm ac yn ei hymddygiad. Ni allech lai na'i pharchu, ac yr oedd yn selog dros bob achos da. D'wedaf heb ofni cael fy amau—"Rhoes Duw iddi galon fawr." Y mae wedi mynd adref. Y mae'n mudiad bach yn cael ei fylchu, a'r cymeriadau praffaf yn cael eu symud, a neb yn dod i lanw eu lle. Fe gofir yn hir amdani hwnt ac yma. Gellir torri blodyn i lawr, ond fe erys ei berarogl ar awel yr hwyr. Y mae Minnie wedi'i thorri i lawr, ond erys yr adgofion melys amdani yn bur yn Nyffryn Teifi. Gŵyr pob un am ei golled ef ei hun, ond y golled fwyaf sydd i Ffynnon Fair. Y mae'r pen cyngor wedi'i symud, ac y mae'r haul dan gwmwl.

Fear not the cloud that veils the sky,
'Tis out of darkness, Light must rise
As e'er of old—
The true, the good, the fair endure,
And thou with eyes less dim, more pure,
Shalt them behold.

Ffarwel hen ffrind, am ennyd fach ; a bydded i ninnau bob un ohonom geisio gwasanaethu ein hoes gyda sêl a ffyddlondeb fel y credwn y gwnaeth hi, gan sychu'n dagrau yn ei ffydd olau hi, a dywedyd—

'Not dead, but gone before.'

Marwgofion.

RHAGFYR 14—ANN JONES, Lodge Berthlwyd, Maesymeillion yn 65 mlwydd oed. Yn herwydd ei hir afiechyd symudwyd hi o'r Lodge i dŷ ei chwaer, Mrs. Overall, ym Mhrengwyn ychydig fisoedd cyn ei marw. Yma cafodd bob ymgeledd, a chymorth cariad chwiorydd a chyfeillion tyner i ofalu am dani. Ganwyd hi ym Mhwllgravel, a merch ydoedd i'r diweddar John ac Elizabeth Jones. Drwy ei bywyd felly ni bu ymhell o gysgod ei chysegr, yr hwn a adawodd ddylanwad da ar ei chymeriad. Yr oedd yn un o ffyddloniaid yr achos yn yr ardal. Ni âi dim ymlaen ym Mhantydefaid nad oedd hi yno yn ei sêl a'i diddordeb, a bydd ei cholli yn golled i'r achos. Hi oedd gyda'r cyntaf i ymuno ag Urdd y Benywod, a pharhaodd yn ei gweithgarwch hyd nes o afiechyd ei amharu. Perchid hi oherwydd hawddgarwch ei hysbryd a thynerwch ei chalon. Drwy fisoedd ei chystudd cadwodd ei hysbryd yn ddewr, a'i ffydd yn y gobeithion uwch. Daearwyd ei gweddillion yn ei "daear sanctaidd" pryd y daeth torf o hen gyfeillion ynghyd i dalu'r gymwynas ola'. Gwasanaethwyd yn y tŷ, y Capel, ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. Marles Thomas a T. O. Williams a Miss Nansi Davies, Sychdy wrth yr Organ. Gedy ar ôl mewn hiraeth fab, dau frawd, dwy chwaer, wyrion ac wyresi. Tangnefedd i'w henaid a heddwch i'w llwch.

Ar yr ail o Ionawr, yn 83 mlwydd oed, FLORENCE DAVIES, 53, High St., Cefn Coed, gweddw y diweddar W. R. Davies, a fu yn ysgrifennydd yr achos am flynyddoedd lawer. Ganwyd hi yng Nghaerdydd, ac ymfudodd i Gefn Coed oddeutu 60 mlynedd yn ôl. Hanai ei phriod o linach Siôn Llewelyn, un o sefydlwyr yr achos yn 1747, a thrwy'r blynyddoedd ceisiodd hithau ymbriodi a'r traddodiad, a chadw i fyny enw da yr achos. Er nad oedd iddi fedrusrwydd cyhoeddus, yr oedd ei diddordeb a'i gweithgarwch yn amlwg yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Gofalai roddi pob mantais i'w merch a'i mab-yng-nghyfraith i wasanaethu, ac ni fynnai ar unrhyw gyfrif, iddynt hwy fod yn absennol o'r addoldy. Hi oedd yr aelod hynaf o gangen Urdd y Benywod, ac ni lafuriodd neb yn galetach na hi yn ei ffordd ddistaw ei hun dros y mudiad. Gwelwyd hi ar ei gorau bob amser ar ei haelwyd ei hun, a cheid chroeso calon i Weinidogion a charedigion yr achos yno drwy'r blynyddoedd. Yno y gweinyddai garedigrwydd Mam. Rhoddodd ei gwasanaeth am flynyddoedd i weini ar y claf, a pherchid hi am gywirdeb ei hysbryd, a'r enw da geisiai roddi i bawb. Perthynai iddi gadernid cymeriad. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd, a'r Parch. J. Marles Thomas (ei hen Weinidog) a'r Parch. C. O. Devonald yn gwasanaethu. Gedy mewn hiraeth ei hunig ferch, Mrs. Susie Edwards, A.T.C.L., Organyddes y Capel am 40 mlynedd, a'i mhab-yng-nghyfraith, Lewis Edwards, yntau wedi bod a'i ysgwydd tan y baich crefyddol gydol ei fywyd ; hefyd chwaer, a thri brawd. "Thine she was, and thou gavest her to me, and she hath kept thy word".

Newyddion yr Enwad.

GRAIG, LLANDYSUL.—Dydd Calan yw dydd mawr y flwyddyn yn hanes cynulleidfa'r Graig, ac eleni cafwyd gwledd a dramâu i gadw yr hen arferiad yn uchel ei hwyl. Rhoddwyd y te y tro hwn gan Mr. a Mrs. Edward Davies, Penlonwen ; Mr. Davies yw arolygwr yr ysgol Sul, ac un o ffyddloniaid yr achos. Gweinwyd wrth y byrddau gan wragedd y gynulleidfa, yn cael eu hyfforddi fel arfer gan Mrs. Davies, y Fedwen. Wedi'r te perfformwyd tair drama fer gan Gwmni Newydd y Graig yn Neuadd Tysul dan lywyddiaeth Mr. Edward Davies. Yr oedd y lle yn orlawn, a'r actorion ar eu gorau. Cafwyd cymaint blas ar y llwyfan nes bod y Cwmni yn awr yn teithio o gylch i roddi eu gwasanaeth i leoedd eraill. Pob hwyl i'r wyl y flwyddyn nesa eto. —Nos Sul, Rhagfyr 23 cynhaliwyd "Gwasanaeth Nadolig" y plant. Trefnwyd rhaglen arbennig o "Basiant-Drama" yn gosod allan stori'r Nadolig—wedi ei ysgrifennu gan y Gweinidog. Addurnwyd rhan o'r capel yn ôl y dull dwyreiniol, a'r plant i gyd wedi eu gwisgo ar gyfer yr achlysur. Cymerwyd rhan gan ferched ifainc yr ysgol Sul, ac yn ôl barn y gynulleidfa luosog—hwn oedd un o'r gwasanaethau harddaf a dwysaf a welwyd ers tro.

BRONDEIFI.—Y mae'r gweinidog, y Parch. T. O. Williams, M.A. yn cynnal cyfres arbennig o ddarlithiau ar bynciau crefyddol ar nos Sul yn awr, a deellir eu bod yn creu diddordeb mawr yn y lle.

DROS CHWE CHAN PUNT MEWN CHWE MLYNEDD.

Trwy garedigrwydd yr Aberdare Leader

DENGYS y llun uchod ddau aelod ifanc o ysgol Sul Highland Place yn cyflwyno pwysi o flodau i ddwy wraig bwysig ar achlysur ' Gwyl Gwerthiant Gwaith ' y Capel. Y mae Amlyn ar y dde yn cyflwyno'i flodau i Mrs. G. Thomas, B.Sc., Pontypridd (un o deulu enwog Tophill) a oedd yn agor yr ŵyl, a Rowland ar y chwith yn cyflwyno ei rodd yntau i Miss Sophia George, Llywydd Urdd y Benywod yn Highland Place ; yn y cefn (o'r chwith i'r dde) gwelir Mrs. Elsie Davies a Mrs. T. Morse, ysgrifennydd a thrysorydd y mudiad. Y mae Urdd y Benywod Highland Place wedi gwerthu dros chwe chan punt o'u gwaith gwnïo er mwyn yr achos yn ystod y chwe mlynedd

diwethaf, ac wedi gwneud elw o dros £150 yn yr olaf, y maent yn dechrau paratoi am y nesaf ! Y mae Miss George wedi dosbarthu'r *Inquirer* am dros drigain mlynedd a bu'n organydd y Capel am gyfnod hwy.

SYLFEINI UNDODIAETH.—Ar gais arbennig o'r clwb, traddododd y Parch. D. Jacob Davies araith ar y testun uchod yn Nhŷ'r Cymru, Caerdydd Nos Sul, yr ail o Ragfyr. Yr oedd dros bedwar ugain o bobl ifanc dan y tri degau yn bresennol a dangoswyd diddordeb mawr. Ar y diwedd holwyd y darlithydd am tua hanner awr a llwyddodd i ddod adref yn ddi-anaf os wedi blino ! Mynegodd amryw yn groyw mai dyna oedd eu ffydd hwythau.

PANTDEFAID.—Ar y 29ain Rhagfyr cynhaliwyd Eisteddfod o radd uchel yn Neuadd y Capel—un o'r Eisteddfodau mwyaf llewyrchus fu yn yr ardaloedd ers blynyddoedd. Yr oedd cyfarfod y plant yn eithriadol yn rhif y cystadleuwyr ac o ran talent canu ac adrodd. Un nodwedd arbennig o'r cyfarfod hwyrol oedd y cystadleuaethau barddonol. Yn ôl barn y Beirniad yr oeddynt o safon y "Genedlaethol". Bu llwyddiant mawr hefyd ar y trefniadau a Miss Nansi Davies a Mr. D. O. Evans fel ysgrifenyddion, a Meistri Jenkin Evans a T. Thomas fel trysoryddion ar eu gorau. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo, ac am y rhoddion hael at y gwobrwyon niferus. Llywyddwyd yn hwylus gan Mr. Ifan Jones, Aberystwyth, hael-gyfaill yr achos ym Mhantdefaid ar bob achlysur. Arweiniwyd drwy'r dydd gan y gweinidog, a'r ddau feirniad—Mr. Albert Evans, Felindre a'r Parch. Idwal Jones, Pencader yn eu hwyliau gorau.

OL-RIFYNNAU COLL.—Diolch yn fawr i Miss Evans, Blue Bell a charedigion di-enw eraill a ddanfonodd i mi rai o'r ôl-rifynnau. Y mae'r rhain yn eisiau o hyd—Medi 1949 ; Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 1950. Diolchaf amdanynt.

SOSIAL.—Hwyr Gwener, Rhagfyr 28, 1951 caed y Sosial Flynyddol yn Festri capel Rhydygwin. Ar ôl cyfranogi o'r tê a'r danteithion rhagorol ag oedd gwragedd y Capel wedi baratoi ar gyfer yr amgylchiad, ymddangosodd Santa Claus, yn cael ei bersonoli gan Mr. John Griffiths, Tŷ'r Capel. Ei waith oedd rhannu yr anrhegion ag oedd Coeden Nadolig wedi cael ei llwytho â hwy ar gyfer y plant. Hwn oedd y tro cyntaf i Santa Claus ymweled â'r lle, a chreodd fywiogrwydd mawr ym mhlith y plant. Derbyniodd pob plentyn anrheg werthfawr oddi ar y Goeden. Hefyd cafodd aelodau yr Ysgol Sul wobrau am ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Yn ychwanegol rhanwyd melysion ac aurafalau i'r plant. Hyfrydwch oedd gweled y plant mor fywiog a hapus. Diolchwyd i bawb ag oedd wedi cyfrannu tuag at yr amgylchiad.

CAPEL-Y-GROES.—Llongyfarchwn Mr. Ewart Evans ar ei ddyrchafu yn Llywydd y Ffermwyr yn Sir Aberteifi. Y mae Mr. Evans yn swyddog ac aelod gweithgar yng Nghapel-y-groes.

CRIBIN.—Llwyddiant cerddorol. Dymunwn longyfarch yn gynnes Cynthiad Davies, Tynewydd, Cribin, ar ei gwaith yn pasio, yng ngradd V, Arholiad Uwchradd Bwrdd Undebol y Colegau Cerdd Brenhinol, a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar. Un o ddisgyblion Mrs. M. Lloyd Evans, A.T.C.L., L.T.S.C. yw hi. Da gennym ddeall bod Cynthia wedi dechrau gwasanaethu fel un o organyddion Capel Cribin.

ABERDÂR.—Bydd y Parch. D. Jacob Davies yn dechrau ar ei gydweinidogaeth o'r ddau gapel yma ar Sul, Ionawr y 27ain, gan wasanaethu yn yr Hen Dŷ Cwrdd yn y bore ac yn Highland Place yn y nos.

Ceir darllediad o wasanaeth crefyddol o'r Hen Dŷ Cwrdd ar y 29ain o Fehefin nesaf. Pregethir gan y Prifathro J. D. Jones a gweinyddir y gwasanaeth gan y gweinidog.

CILIAU AERON.—Ar Sul, Rhagfyr 9 rhoddwyd anrhegion Nadolig i blant y capel.

HEN DY CWRDD, ABERDÂR.—Cafwyd sosial hapus dros ben i ddisgwyl am y flwyddyn newydd ac yr oedd yr aelodau i gyd yn eu hwyliau gorau. Yn eu plith yr oedd y ferch ifanc bedwar ugain oed, Mrs. Davies, Llewelyn Street. Ar ôl gwledd o ddanteithion o waith y gwragedd cafwyd cyngerdd o dan lywyddiaeth D. T. Williams. Ymhlith yr eitemau clywyd y Côr Merched ar ei orau dan arweinyddiaeth Miss Edith Howells. Y gŵr gwadd oedd y Parch. Jacob Davies ac ef a'r codwr canu, John Thomas yn ymryson am yr eitem orau,—un yn dynwared a'r llall yn canu. Wedi hynny cafwyd chwareuon dan ofal Miss Alice Howells a Mr. Edgar Williams. Yr oedd organydd y capel, Mr. Willie Jones wrth ei waith fel arfer. Mae'r flwyddyn newydd wedi gwawrio ac y mae'n flwyddyn o obeithion mawr yn hanes yr Hen Dŷ Cwrdd. Gobeithio y daw ein breuddwydion i ben.

CAPEL-Y-BRYN.—Nos Wener ar ôl y Nadolig cafwyd y wledd flyn-, yddol, a pharti'r plant, a'r Goeden Nadolig—rhodd garedig Urdd y Benywod a'r cyngerdd gan y plant. Mr. John Jones, Troedyrhiw oedd yr arweinydd a Mr. William Jones, Crosshands yn cymryd rhan "Santa Claus." Diolchodd y Gweinidog i bawb am eu help a'u caredigrwydd.

Nos Iau, Ionawr 17 ar derfyn y dosbarth gwnïo tan gyfarwyddwyd Mrs. Davies, Y Felin, cyflwynodd Urdd y Benywod *case of cutlery* i Mrs. Evans, Blaenpant, a chloc i Mrs. Lewis, Clarence am eu gwasanaeth da a ffyddlon i'r gangen am ddeuddeg mlynedd, un yn ysgrifenyddes a'r llall yn drysoryddes. Llywyddwyd gan Mrs. Martha Evans, Fronddu a rhoddodd glod i'r ddwy am eu gwasanaeth anrhydeddus. Ategwyd gan Mrs. Jones, Castle Green; Mrs. Lewis, School House; Mrs. Evans, Brynllefrith a'r Gweinidog. Da gwybod fod y gangen yng Nghapel-y-Bryn ar y *map* o'r diwedd. Er cymaint ei llwyddiant fel cangen a'i gwasanaeth digymar i'r gynulleidfa a'r

Ysgol Sul yn ystod y blynyddau, eleni am y tro cyntaf eu cydnabyddwyd gan y mudiad yn y Sir. Y swyddogion am y flwyddyn yw Mrs. Martha Evans, Fronddu yn llywyddes ; Miss Myra Evans, Melrose Park yn ysgrifenyddes a Mrs. Evans, Brynllefrith yn drysoryddes.

CAPEL-Y-CWM.—Ar Ionawr 5 cafwyd gwledd flynyddol yr Ysgol Sul, ac yn dilyn cyngerdd a Choeden Nadolig. Ar yr adeg cyflwynwyd anrheg —swm sylweddol o arian—i Mr. James Thomas, Crossway am ei wasanaeth ardderchog fel arweinydd y gân am dros 53 mlynedd, a llawen gan bawb oedd ei weld mor sionc ac iach ac wrth y gwaith o hyd. Gwnaed y cyflwyno gan Mrs. Meredith Williams, ac fe roddodd hefyd bum punt i'r Ysgol Sul yn ogystal a rhodd i bob plentyn oedd yn ei mynychu. Derbynient hefyd "facynon poced" oddiwrth Mrs. James, Penlanisaf. Siaradwyd ar yr achlysur gan Mr. David Evans, arweinydd y gân yng Nghapel-y-Bryn ; Mr. David. Davies, Blaenhirbant-uchaf a'r Gweinidog. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mr. Cairo Jenkins, Cathal, a than ei ofal oedd rhaglen anarferol o dda. Yn y gadair oedd Mr. Dan Evans, C.D., Gorsgoch. Cafwyd ganddo araith dda a swm o bum gini at gronfa'r Ysgol Sul.

YR YMOFYNNYDD : *Cronfa'r Apêl*—Dyma'r cyfraniadau diwethaf : Y Parch. Tyssul Davies, Bryste, pum punt ; Mr. W. S. Jones, punt ; Llwynrhydowen, punt ; Mrs. A. Jones-Rees, Llanbedr, gini ; Cyboeddir eraill yn ein rhifyn nesaf eto, gobeithio.

SALMAU'R MYNYDD.—Y mae rhai copïau o lyfr emynau newydd Gellionnen a'r Graig ar gael o hyd. Brysiwch a cheisiwch gopi oddi wrth Mr. Haydn Morgan, 198, Swansea Road, Trebanos, Pontardawe.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.